

CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD AR Y 22ain O FAI,2023 YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, LLANDDOGED.

1.1..CROESO

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod

1.2 PRESENNOL

Cyng. John Owen_(Cadeirydd), Cyng Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin, Cyng. Arwel L. Jones
Cyng. Alun Morris, Cyng. Anwen Jones ,Cyng. Eifion Williams Delyth Algieri (clerc).

CYNGHORWYR SIR

Cyng. Nia Owen, Cyng Aaron Wynne

1.3YMDDIHEURIADAU

Cyng. Dylan Jones

2. CADARNHAU'R COFNODION BLWYDDYN DIWETHAF

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 9fed, Mai, 2022.

3. PENODI CADEIRYDD

Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi eu dwylo i benodi Cyng Alun Morris yn Gadeirydd am y flwyddyn 2023/24.

Cyn i Cyng John Owen ymadael ar gadair diolchodd i aelodau'r cyngor ar clerc am eu cydweithrediad ar gefnogaeth gafodd yn ystod ei amser yn y gadair.

Diolchodd y Cyng. Alun Morris i Cyng John Owen am ei wasanaeth dros y cyfnod yn y gadair.

4.PENODI IS-GADEIRYDD

Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi eu dwylo i benodi Cyng. Hefin Martin yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2023/24.

5.PENODI IS BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS

Pasiwyd a chytunwyd i'r canlynol barhau ar yr Is-bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus :- Cyng Alun Morris, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. John Owen, Cyng. Eifion Williams, Cyng. Anwen Jones.

6. CYNRYCHIOLYDD O'R CYNGOR CYMUNED A'R CYFARFODYDD A PHWYLLGORAU LLYWODRAETHWYR YSGOL GYNRADD LLANDDOGED

Cadarnhawyd Cyng. Anwen Jones ei bod yn fodlon i barhau i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar bwyllgorau'r Corff Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanddoged.

7.COD YMDDYGIAD

Cadarnhaodd aelodau'r Cyngor y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n safonau cywir o ymddygiad a ddisgwylir gan gynghorwyr ac aelodau i gyd yn cytuno i gydymffurfio a'r Cod fel unigolyn.

8.COFRESTR BUDDIANNAU

Cwblhawyd aelodau'r Cyngor y Gofrestr Buddiannau am y flwyddyn 2023/24.

9.LWFANSAU AELODAU

Derbyniwyd llythyr wedi ei llofnodi gan oll o'r Cynghorwyr yn nodi nad ydynt am dderbyn costau na thaliadau yn rhinwedd ei swyddi.

Arwyddwyd (Cadeirydd) Dyddiad